**GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG**
**(MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD)**
**(GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) 2020**

1. HYSBYSIR drwy hyn bod Cyngor Bro Morgannwg wrth arfer ei bwerau dan adrannau 32, 33 a 35 a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Rhan 6 Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill yn cynnig gwneud Gorchymyn a fydd yn ychwanegu mannau parcio y telir amdanynt a ffioedd yn y lleoliadau a nodir yn yr Atodlen isod.

2. Mae modd gweld manylion llawn y cynnig hwn ar wefan y Cyngor www.bromorgannwg.gov.uk ac mae'n rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau a all fod gennych i'r cynnig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai (Cyf. IF922) yn ysgrifenedig erbyn neu drwy e-bost at C1V@valeofglamorgan.gov.uk o 19 Mehefin 2020 a rhaid cynnwys eich rhesymau dros wrthwynebu.

3. Rhoddir gwybod i unrhyw un sy'n gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985, fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor hwn i alluogi'r cyhoedd i archwilio unrhyw sylwadau a ddaw i law am y Gorchymyn a gynigir.

**Diwygir y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol fel a ganlyn:**
**Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) (Gorfodi Sifil) (Diwygio) 2013 ("Gorchymyn 2013")**

**Bydd y meysydd parcio canlynol yn cael eu tynnu o Atodlen 2 (Mannau Parcio di-dâl) a'u cynnwys yn Atodlen 1 (Mannau Parcio y Telir Amdanynt)**

Maes Parcio Neuadd y Dref, Y Bont-faen
Maes Parcio Wyndham Street, Y Barri

**Yn ogystal, caiff y meysydd parcio canlynol eu gosod yn Atodlen 1 (Meysydd Parcio sy'n cynnwys Taliadau) Parks)**

Parc Gwledig Cosmeston
Parc Gwledig Porthceri

Dyddiad: 28 Mai 2020

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg,
Yr Alpau, Gwenfô. CF5 6AA.

**GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG**
**(MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD)**
**(GORFODI SIFIL)(DIWYGIO)**
**2020**

## ATODLEN

## LEOEDD PARCIO TALU

**Dosbarth y Cerbyd**

1. Cerbydau pobl anabl
2. Ceir
3. Bysus/Coetsis
4. Beiciau modur

**Meysydd Parcio Canol Trefi**

| Enw'r Man Parcio | Dosbarth y Cerbyd | Diwrnodau ac Oriau Gweithredu'r Man Parcio | Uchafswm y Cyfnod y Gall Cerbyd Aros | Graddfa Gostau Arfaethedig ar gyfer y Man Parcio |
|---|---|---|---|---|
| Wyndham Street, y Barri | 1, 2 a 4<br>3 drwy drefniant yn unig | 08:00 – 18:00<br>Llun - Sad | 15 awr | Hyd at 2 awr – am ddim<br>Hyd at 4 awr - £2<br>Drwy'r dydd – £6<br>Anabl – AM DDIM<br>Beic Modur – AM DDIM |
| Sgwâr Neuadd y Dref, y Bont-faen | 1, 2 a 4<br>3 drwy drefniant yn unig | 08:00 – 18:00<br>Llun - Sad | 15 awr | Hyd at 2 awr – am ddim<br>Hyd at 4 awr - £2<br>Drwy'r dydd – £6<br>Anabl – AM DDIM<br>Beic Modur – AM DDIM |

**Meysydd Parcio Parciau Gwledig**

| **Enw'r Man Parcio** | **Dosbarth y Cerbyd** | **Oriau a Dyddiau Gweithredu'r Man Parcio** | **Uchafswm y Cyfnod y Gall Cerbyd Aros** | **Graddfa Gostau Arfaethedig ar gyfer y Man Parcio** | **Trwyddedau Arfaethedig (yn benodol i'r cerbyd)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston | 1, 2 a 4<br>3 drwy drefniant yn unig | 10:00 – 20:00<br>bob dydd<br>O 1 Mawrth tan 30 Medi<br><br>10:00 – 17:00<br>bob dydd<br>O 1 Hydref tan ddiwedd mis Chwefror | 15 awr | Hyd at 2 awr - £1<br>Hyd at 4 awr - £2<br>Drwy'r dydd – £4<br>Bysus/coetsis – £30<br>Anabl – AM DDIM<br>Beic Modur – AM DDIM | 6 mis – £30<br>12 mis – £50 |
| Parc Gwledig Porthceri | 1, 2 a 4<br>3 drwy drefniant yn unig | 10:00 – 20:00<br>bob dydd<br>O 1 Mawrth tan 30 Medi<br><br>10:00 – 17:00<br>bob dydd<br>O 1 Hydref tan ddiwedd mis Chwefror | 15 awr | Hyd at 2 awr - £1<br>Hyd at 4 awr - £2<br>Drwy'r dydd – £4<br>Bysus/coetsis – £30<br>Anabl – AM DDIM<br>Beic Modur – AM DDIM | 6 mis – £30<br>12 mis – £50 |